Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd** : | Swyddog Technoleg Gwybodaeth | **Lleoliad** : | Un o brif swyddfeydd yr Urdd |
| **Adran** : | Technoleg Gwybodaeth | **Cyflog** : | Gweithredol 4: £29,409 - £31,430 y flwyddyn |
| **Oriau Gwaith** : | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | **Cytundeb** : | Parhaol |
| **Yn adrodd i** : | Rheolwr Gweithrediadau TG | **Rheolaeth Llinell** : | Dim |

**Prif bwrpas y swydd**:

Mae'r Swyddog TG yn gyfrifol am gyflawni llwyth gwaith craidd gweithrediadau TG y sefydliad, gan gynnwys cefnogaeth ail linell, gweithgareddau cynnal a chadw, a chyfrannu at brosiectau TG a thrawsnewid digidol.

Mae'r rôl yn gweithredu fel y bont rhwng cefnogaeth llinell gyntaf a rolau technegol neu brosiect uwch, gan sicrhau bod problemau technegol yn cael eu datrys yn effeithlon a bod gwaith gweithrediadau yn cael ei gyflawni'n gyson ac i safon uchel.

Gan weithio'n annibynnol, disgwylir i ddeiliad y swydd ymchwilio a datrys materion technegol o gymhlethdod amrywiol, blaenoriaethu llwyth gwaith yn effeithiol, a chymhwyso barn dechnegol wrth benderfynu ar ddatrysiadau priodol.

Mae'r rôl yn cyfrannu at sefydlogrwydd, perfformiad a gwelliant parhaus gwasanaethau TG, drwy adnabod problemau'n rhagweithiol, a chefnogi'r gwaith o ddarparu systemau dibynadwy a diogel ar draws y sefydliad.

---

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**:

**Desg Wasanaeth a Chefnogaeth**

- Datrys tocynnau cefnogaeth ail linell yn annibynnol a chymryd perchnogaeth lawn hyd at ddatrysiad.
- Ymchwilio i faterion, gan ddefnyddio barn dechnegol i ddod at ddatrysiadau priodol a lleihau uwch gyfeirio.
- Rheoli tocynnau o fewn y system ITSM, gan sicrhau ymatebion prydlon a llif gwaith effeithiol.
- Uwch gyfeirio materion lle bo angen, gan ddarparu cyd-destun, dadansoddiad ac argymhellion.
- Blaenoriaethu a rheoli llwyth gwaith yn effeithiol ar draws tocynnau cefnogaeth, cynnal a chadw a gwaith prosiect.

## Cynnal a Chadw

- Arwain y gwaith o weithredu gweithgareddau cynnal a chadw (e.e. diweddariadau, copïau wrth gefn, monitro), gan sicrhau bod tasgau'n cael eu cwblhau'n gywir ac ar amser.
- Cyflawni gweinyddiaeth systemau ar draws y stac technoleg, gan gynnwys dyfeisiau, isadeiledd a SaaS (e.e. Microsoft 365).
- Rheoli cylch bywyd, mynediad a chaniatâd defnyddwyr, a chefnogi cylch bywyd asedau TG gan gynnwys darparu ac olrhain.
- Monitro perfformiad systemau, adnabod risgiau neu broblemau ailadroddus, a chynnal dadansoddiad gwraidd problemau ac atebion hirdymor.

## Prosiectau a Gwelliant Gweithrediadau

- Cyflawni gwaith technegol o fewn prosiectau TG a thrawsnewid digidol, gan gefnogi'r gweithrediad a sicrhau trosglwyddiad effeithiol i ddefnydd gweithredol.
- Adnabod cyfleoedd yn rhagweithiol i wella prosesau, effeithlonrwydd a darpariaeth gwasanaethau, a chyfrannu at eu gweithrediad.

## Diogelwch a Chydymffurfiaeth

- Cymhwyso arferion gorau diogelwch ym mhob gweithgaredd gweithrediadau, gyda sylw at ofynion cydymffurfiaeth (e.e. Cyber Essentials).
- Cefnogi ffurfweddiad diogel a gweithredu rheolaethau diogelwch technegol.
- Ymateb i rybuddion a digwyddiadau diogelwch, gan gymryd camau cywirol neu uwch gyfeirio lle bo angen.

## Dogfennu a Chefnogaeth i'r Tîm

- Cadw dogfennaeth dechnegol a'r gronfa wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol.
- Darparu arweiniad technegol i Gynorthwywyr TG, gan gefnogi eu datblygiad a galluogi datrysiad llinell gyntaf effeithiol.
- Darparu cefnogaeth TG ar y safle ar gyfer digwyddiadau'r sefydliad (e.e. Eisteddfod, Rygbi 7-bob-ochr).

---

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| **Hanfodol:** | **Dymunol:** |
| --- | --- |
| 1. Cymhwyster TG perthnasol neu brofiad cyfatebol dangosadwy.<br>2. Sgiliau cryf wrth ddatrys problemau technegol.<br>3. Y gallu i flaenoriaethu a rheoli llwyth gwaith amrywiol yn annibynnol.<br>4. Gwybodaeth dda o Microsoft 365 a rheolaeth dyfeisiau defnyddwyr.<br>5. Dealltwriaeth gadarn o seilwaith TG (rhwydweithio, hunaniaeth, dyfeisiau).<br>6. Dealltwriaeth cryf o egwyddorion ac arferion gorau seiberddiogelwch.<br>7. Sgiliau cyfathrebu effeithiol gyda'r gallu i ddarparu cefnogaeth glir a phroffesiynol.<br>8. Y gallu i gymhwyso barn dechnegol wrth ddatrys problemau a blaenoriaethu gwaith.<br>9. Isafswm o 3 blynedd o brofiad mewn rolau cefnogaeth neu weithrediadau TG.<br>10. Profiad dangosadwy mewn cefnogaeth TG ail linell sy'n cynnwys datrys problemau technegol yn annibynnol.<br>11. Profiad o weinyddiaeth systemau a gwaith cynnal a chadw.<br>12. Profiad o gefnogi ffurfweddiad diogel, rheolaeth diweddariadau meddalwedd a rheolaeth mynediad.<br>13. Bydd angen meddu ar drwydded yrru llawn a char. | 1. ITIL Foundation neu tebyg.<br>2. CompTIA Security+ neu tebyg.<br>3. Profiad o sgriptio neu awtomeiddio (e.e. PowerShell).<br>4. Cyfarwydd ag offer diogelwch busnes/menter (e.e. Microsoft Defender, caledwedd waliau tân).<br>5. Profiad o weithio mewn amgylchedd sy'n cwrdd â gofynion Cyber Essentials Plus.<br>6. Profiad o gyfrannu at brosiectau TG neu gosod systemau newydd.<br>7. Profiad o weithgareddau'n ymwneud â diogelwch neu gydymffurfiaeth. |

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd**: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad**: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mai 2026 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

**Gwiriadau Perthnasol**:  Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) yn ddibynnol ar leoliad gwaith.